Julie James AC
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Huw Irranca-Davies
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol

24 Mai 2018

Annwyl Julie a Huw

**Beichiogrwydd, mamolaeth a gwaith**

Diolch yn fawr i'r ddau ohonoch am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor fel rhan o'r ymchwiliad hwn.

Gan fod yr amser yn brin, nid oedd cyfle i fynd ar drywydd rhai meysydd. Mae'r meysydd hyn yn ychwanegol at yr ymrwymiadau a wnaethoch yn y Pwyllgor i ddarparu rhagor o wybodaeth am y canlynol:

- Dadansoddiad cychwynnol o gynlluniau peilot y cynnig gofal plant; a
- Data am fenywod yn y diwydiannau STEM, yn enwedig recriwtio a chadw ar ôl absenoldeb mamolaeth.

Byddem hefyd yn croesawu eglurder ynghylch a all rhieni hawlio'r cynnig gofal plant os yw aelod o'r teulu yn darparu'r gofal naill ai fel darparwr cofrestredig neu mewn lleoliad darparwr cofrestredig.

Yn olaf, a fyddech cystal â darparu rhagor o wybodaeth am yr hyn a fydd yn digwydd i'r rhaglen PaCE pan ddaw cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop i ben yn 2020.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Gan ein bod yn dechrau trafod ein casgliadau a'n hadroddiad, byddem yn gwerthfawrogi ymateb erbyn dydd Llun 4 Mehefin.

Hoffwn ddiolch i chi ymlaen llaw am eich cymorth.

Yn gywir,

John Griffiths AC

**Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**